Siarter Teithio Iach

Canolbarth a Gorllewin Cymru

Rydym yn cymryd camau i leihau allyriadau carbon, gwella ansawdd aer a chefnogi iechyd a lles staff

Trafnidiaeth Gyhoeddus

Archwilio a hyrwyddo gostyngiadau trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer teithio cynaliadwy
Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau a gweithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus i archwilio cynnig gostyngiadau i staff ar gyfer cymudo a theithio busnes

Cerdded a Seiclo

Cynnig y cynllun beicio i'r gwaith
Cynnig y cynllun beicio i'r gwaith i'r holl staff gyda gwerth digonol i gyfrannu at gost e-feiciau

Galluogi staff i gael mynediad haws i feiciau yn y gwaith
Gwella mynediad at feiciau yn y gwaith neu edrych i mewn i weithredu cynlluniau o'r fath lle bo'n briodol, e.e. beiciau cronfa neu feiciau llogi lle mae aelodaeth gorfforaethol ar gael yn lleol

Darparu cyfleusterau ac ategolion i staff i annog teithio llesol
Asesu, darparu a hyrwyddo cyfleusterau teithio llesol fel y bo'n briodol (yn dibynnu ar anghenion staff), megis storfa feiciau ddiogel, ystafelloedd sychu, loceri neu gawodydd a sychwyr gwallt ym mhob prif safle

Hyrwyddo hyfforddiant beicio a sesiynau cynnal a chadw
Hyrwyddo hyfforddiant beicio a chynnal a chadw beiciau fel y bo'n briodol

Cyfathrebu ac Arweinyddiaeth

Darparu gwybodaeth ar sut i gyrraedd ein safleoedd yn gynaliadwy
Hyrwyddo canllawiau presennol a newydd, mapiau rhyngweithiol ac amserlenni (fel y rhai sydd ar gael trwy Traveline Cymru) ar sut i gyrraedd safleoedd. Lle bo'n briodol, cyfrannu at fapiau rhyngweithiol presennol sy'n dangos, lle bo'n berthnasol, yr holl seilwaith cerdded a beicio a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer ein prif safleoedd sector cyhoeddus yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru

Ystyried teithio iach ar draws ein swyddogaethau ehangach
Hyrwyddo ac ystyried opsiynau a buddion teithio iach ar draws swyddogaethau ehangach, megis: caffael, cynadleddau, cynllunio gweithleoedd a swyddfeydd, ac wrth hysbysebu rolau yn ein sefydliadau.

Darparu cynlluniau teithio personol i staff
Cynnwys cynllunio teithio personol fel rhan arferol o'r rhaglen sefydlu ar gyfer gweithwyr newydd, gyda chynnig pellach yn rheolaidd wedi hynny i'r holl staff presennol (e.e. mewn adolygiadau perfformiad personol blynyddol), cefnogi ac annog staff i deithio ar droed, ar feic neu ar drafnidiaeth gyhoeddus fel y rhagosodiad

Gwrando ac ymateb fel y bo'n briodol i staff yn rheolaidd
Gwrando ac ymateb yn rheolaidd i staff fel y bo'n briodol i nodi sut i oresgyn rhwystrau unigol a sefydliadol i deithio iach

Defnyddio negeseuon cyfathrebu cyson
Defnyddio negeseuon cyson ar draws holl lofnodwyr y Siarter ynghylch trafnidiaeth gynaliadwy, gan ddefnyddio adnoddau Teithio Iach Cymru fel y bo'n briodol

Mesur y rhaniad modd teithio ar gyfer cymudo staff
Mesur y rhaniad modd teithio ar gyfer cymudo staff (lle bo'n berthnasol) a theithio busnes o leiaf unwaith y flwyddyn i asesu cynnydd

Lleihau allyriadau cerbydau

Annog teithio cynaliadwy trwy bolisïau treuliau
Defnyddio siart llif safonol ar gyfer gweithwyr sy'n adlewyrchu'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy wrth ystyried teithio busnes. Dim ond os gellir dangos bod opsiynau mwy cynaliadwy wedi'u hystyried ac nad ydynt yn bosibl neu'n amhriodol y dylid ad-dalu treuliau ar gyfer tacsis neu gar preifat.

Hyrwyddo rhannu ceir fel y bo'n briodol
Hyrwyddo ac annog rhannu ceir neu ddefnyddio rhannu lifft ar gyfer cymudo staff a theithiau busnes fel y bo'n briodol. Cadw o leiaf 10% o leoedd parcio staff ar gyfer cerbydau rhannu ceir

Edrych ar opsiynau ar gyfer cerbydau allyriadau isel iawn yn ein fflydoedd a chaffael
Adolygu, gan gynnwys mapio a monitro ein fflyd a threfniadau caffael (lle bo'n berthnasol) ar gyfer cyflwyno cerbydau allyriadau isel iawn

Adolygu'r ddarpariaeth o gyfleusterau gwefru cerbydau trydan
Adolygu'r angen presennol ac yn y dyfodol am seilwaith gwefru cerbydau trydan (EV) ar ein safleoedd mewn cydweithrediad ag eraill i alluogi rhannu seilwaith

Gweithio Ystwyth

Cefnogi gweithio hyblyg
Darparu opsiynau gweithio hyblyg lle bynnag y bo modd, gan gynnwys gweithio gartref a/neu mewn 'Hwb' lleol. Galluogi staff y sector cyhoeddus i ddefnyddio 'desg boeth' mewn sefydliad arall lle bo modd

Datblygu diwylliant o weithio Ystwyth
Datblygu diwylliant o weithio ystwyth i leihau'r pellter a'r angen i deithio. Nodi bylchau sgiliau a darparu hyfforddiant i reolwyr i'w cefnogi